## ATODLEN

Rheoliad 3

FFURF AR HYSBYSIAD GWAITH DIOGELU'R ARFORDIR ARFAETHEDIG

**Deddf Diogelu'r Arfordir 1949Hysbysiad o Gynnig i Wneud Gwaith Diogelu'r Arfordir**

Mae Cyngor [*rhodder enw'r Cyngor*], gan weithredu fel awdurdod diogelu'r arfordir, trwy hyn yn hysbysu, o dan adran 5(1) o'r Ddeddf uchod ei fod yn cynnig gwneud gwaith diogelu'r arfordir yn [*rhodder lleoliad y gwaith*].

Bydd y gwaith yn cynnwys [*rhodder disgrifiad o'r gwaith*].

Amcangyfrifir y bydd cost y gwaith yn £[*rhodder amcangyfrif o'r gost*].

Gellir archwilio manylion y gwaith arfaethedig [ynghyd â chopïau o'r cynllun rheoli'r draethlin berthnasol]*[a mapiau o ardaloedd perygl llifogydd lleol]* yn [*rhodder cyfeiriad lle gellir archwilio a'r amserau pryd y gellir gwneud hynny*].

[* *dileer fel bo angen*]

Gall unrhyw un wrthwynebu'r gwaith arfaethedig trwy gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i'r Cyngor, heb fod yn hwyrach na [*rhodder dyddiad heb fod yn llai na 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad*], hysbysiad o wrthwynebiad i'r cynllun.

Rhaid i unrhyw hysbysiad o wrthwynebiad i'r cynllun ddatgan seiliau'r gwrthwynebiad a gellir ei gyflwyno trwy law, ei danfon trwy'r post, gan dalu o flaen llaw, neu ei danfon trwy ffacs neu e-bost, fel y bydd yn dod i law heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir uchod, i Is-adran Diogelu'r Amgylchedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ [*rhodder rhif ffacs a chyfeiriad e-bost cyfredol, y gellir eu cael oddi wrth Is-adran Diogelu'r Amgylchedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru]* ac i Brif Weithredwr Cyngor [*rhodder enw'r Cyngor*][*rhodder cyfeiriad a rhif ffacs a chyfeiriad e-bost cyfredol y Cyngor*].

[*Rhodder enw swyddog priodol y Cyngor*]

[*Rhodder dyddiad yr hysbysiad*]